



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar  
Bobl Bach y Bannau  
Ysgol y Bannau  
Penlan  
Aberhonddu  
LD3 0YB**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2011**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor  
Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Bobl Bach y Bannau mewn adeilad a adeiladwyd yn bwrpasol ar dir ac ar bwys Ysgol y Bannau ar gyrion Aberhonddu. Mae'r grŵp yn cyfarfod ar bum bore'r wythnos yn ystod amser tymor rhwng 9.10 y.b. a 12.30 y.p.

Drwyddi draw, ceir yma gyfleusterau rhagorol sy'n cynnwys ystafelloedd helaeth ag adnoddau da, ardaloedd tu allan sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda sy'n hawdd fynd atynt gyda'r fantais ychwanegol o fedru defnyddio rhai o gyfleusterau'r ysgol.

Mae'r mynediad i'r lleoliad drwy gyntedd sy'n cael ei ddefnyddio fel ystafell gotiau gyda chyfleusterau ar gyfer rhieni a gofawyr gysgodi tra'n aros i'w plant.

Mae'r prif ystafell wedi'i gwahaniaethu'n briodol i ardaloedd o weithgareddau sy'n cyfateb yn dda i ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ardaloedd cyfagos yn cynnwys ardal gegin ac ystafell ar gyfer chwarae rôl a gweithgareddau cyfrifiadurol. Mae'r toliedau yn cynnwys cyfleusterau ymolchi a thoiled i'r anabl. Mae gan yr ystafell hon fyrdau a chadeiriau o'r maint priodol.

Tu allan, mae dwy ardal dan do, arwynebedd wastad a chaled ar gyfer teganau a chwarae gyda beiciau, ac ardal o borfa. Mae ffens o gwmpas yr ardal tu allan, mae'n ddiogel ac mae mynediad iddi drwy ddrysau yn y prif ystafell.

Daw'r plant sy'n mynychu'r lleoliad o Aberhonddu a'r ardal gyfagos. Gan fod y gymuned yn un lle siaradir Saesneg yn bennaf, a nid oes plentyn ar hyn o bryd yn dod o gartref lle'r Gymraeg yw'r brif iaith. Mae'r rhieni yn dewis y lleoliad er mwyn i'w plant dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg a symud i'r ysgol gynradd gyfrwng Cymraeg gerllaw.

Nid oes un plentyn o gefndir sydd o dan fantais neu anfantais yn arbennig ac ar hyn o bryd nid oes neb wedi'i nodi ag anghenion addysg arbennig (AAA), er bod croeso i blentyn tebyg. Mae'r lleoliad yn ddelfrydol ar gyfer derbyn unrhyw blentyn ag anabledd corfforol. Nid oes plant o gefndir ethnig ac maent oll yn siarad Saesneg.

Mae'r plant, gan gynnwys y rhai sydd ag AAA yn mynychu yn y tymor sy'n dilyn eu penblwydd yn dair oed. Mae'r plant yn mynychu am 3 bore neu fwy yr wythnos ac yn symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg yn y tymor cyn eu penblwydd yn bedair oed. Ar hyn o bryd, mae 11 o blant ar y gofrestr ac mae pob plentyn yn cael eu hariannu. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru ar gyfer derbyn i fyny at 24 o blant.

Mae'r lleoliad wedi cael ei arolygu yn ddiweddar gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Ionawr 2011. Nid oedd unrhyw argymhellion pwysig. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

#### Nodweddion rhagorol

- Mae'r lleoliad yn darparu'r plant ag amgylchedd dysgu neilltuol o dda sy'n cael ei estyn gan gysylltiadau effeithiol iawn gyda'r ysgol gynradd.

#### Nodweddion da

- Mae'r holl blant yn dangos cynnydd ac yn cyflawni'n dda ymhob maes dysgu.
- Mae'r holl blant yn mwynhau dysgu, mae ganddynt agweddau da iawn at ddysgu ac yn ymddwyn yn gyfrifol.
- Mae'r profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n dda ac yn darparu'n plant â chwricwlwm cytbwys iawn.
- Mae'r addysgu yn effeithiol ac yn canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen.
- Mae'r ethos dawel a chefnogol sy'n amlwg yn y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael cefnogaeth ac arweiniad da.
- Mae'r oedolion yn fodolau rôl da ac mae eu meistriolaeth o'r iaith Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar sut mae'r plant yn dysgu'r iaith.
- Mae'r lleoliad yn cael ei arwain a'i rheoli'n dda. Mae'r staff yn cyd-weithio'n dda a defnyddir adnoddau yn dda i gefnogi'r dysgu.

### Rhagolygon gwella

- Mae'r ardaloedd gweithgareddau sydd wedi eu hail-drefnu yn canolbwyntio'n dda ar gyflawni targedau'r Cyfnod Sylfaen ac ar wella safonau addysgiadol.
- Mae gan y staff agwedd gadarnhaol tuag at newid.
- Mae'r staff yn ymwneud yn llawn â mentrau i ddatblygu staff yn yr ysgol.
- Mae'r arweinyddiaeth wedi darparu cyfeiriad clir i waith y lleoliad.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 barhau i ddatblygu'r cynllunio er mwyn cynnwys mwy o gyfleoedd i'r plant weithio a chwarae'n annibynnol, tu fewn a thu allan i'r lleoliad.

A2 mireinio'r gweithdrefnau asesu ymhellach er mwyn nodi'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer plant unigol ac i gynllunio o ganlyniad i hyn.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?	Da
--	----

### Safonau: Da

Mae'r holl blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig ymhob maes dysgu. Maent yn dyfalbarhau yn dda gan ddangos llawer o fwynhad ac ymroddiad yn eu tasgau.

Mae gan yr holl blant fedrau cyfathrebu da iawn. Gan ystyried bod rhai plant dim ond wedi bod yn y lleoliad am gyfnod byr, mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg yn dda iawn. Mae gan yr holl blant eirfa sylfaenol yn y Gymraeg sy'n eu galluogi i wneud eu hunain yn ddealladwy.

Mae gan y plant fedrau gwranddo sydd wedi'u datblygu'n dda ac maent yn dilyn cyfarwyddiadau yn brydlon ac yn fodlon. Maent yn mynegi eu hoffter o storïau ac yn adnabod ac enwi y prif gymeriadau mewn storïau fel "Mrs Wishi Washi".

Mae'r holl blant, i raddau gwahanol, yn sgwrsio yn yr iaith Gymraeg wrth gydchwarae gan ganu caneuon a hwiangerddi Cymraeg yn frwdfrydig.

Mae'r holl blant, yn ddi-eithriad, yn dangos diddordeb mewn llyfrau. Mae'r mwyafrif yn trin llyfrau yn briodol, yn troi tudalennau ac yn dilyn storïau yn eu llyfrau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymarfer eu medrau ysgrifennu ar bapur a byrddau sialc. Gall ychydig o blant ysgrifennu dros eu henwau ac mae'r holl blant yn ymwybodol o swyddogaethau a phwrpas ysgrifennu.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau cyfrif ac mae'r plant fwy abl yn cyfrif yn gywir i ddeg. Mae'r plant fwy abl yn adnabod rhifau i 10 ac yn ysgrifennu'r rhifau mewn ffurf y gellir ei hadnabod. Mae'r plant yma yn adnabod gwallau mewn llinell rhif i 10.

Mae'r holl blant yn adnabod patrwm ac yn medru cyfateb gwrthrychau, fel gwahanol batrymau ar sanau. Fedrant grwpio gwrthrychau yn ôl lliw. Caiff plant gyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio'r cyfrifiaduron yn yr ysgol ac maent yn ddefnyddwyr galluog o'r llygodyn gyfrifiadurol. Maent yn adnabod ac yn defnyddio eiconau sylfaenol ar y cyfrifiadur fel wrth wneud darluniau lliw i'w harddangos.

Mae'r holl blant yn dangos diddordeb gweithredol a pharodrwydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ymweliadau â'r ardal leol wedi eu galluogi i archwilio bywyd gwylt a'r newidiadau sy'n digwydd yn y gaeaf. Maen nhw wedi tyfu hadau ac yn gwybod bod angen dŵr a phridd ar blanhigion er mwyn iddynt dyfu.

Mae gallu creadigol y plant yn cael ei gyfoethogi drwy ddarlunio a pheintio gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, fel ffoil arian, papur a thecstilau er mwyn darlunio'u gwaith fel "byw mewn gwledydd oer". Mae gweithgareddau tebyg hefyd yn cyfoethogi eu medrau echddygol fel wrth marcio a thorri siapiau.

### **Lles : Da**

Mae gan y plant ddealltwriaeth briodol yn unol â'u hoedran o sut gallant gadw'n iach. Gwyddant, er enghraifft, pryd mae angen iddynt olchi eu dwylo gan wneud hyn heb fawr o ymyrraeth. Mae gan y rhan fwyaf o'r plant ddealltwriaeth sylfaenol o bwysigrwydd ffrwythau yn eu deiet.

Mae gan yr holl blant ddigon o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, gan gynnwys chwarae tu allan. Mae'r plant sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol tebyg yn gwneud hyn yn ddiogel ac yn rhydd o unrhyw berygl corfforol.

Mae'r holl blant yn dangos mwynhad yn eu dysgu. Maent yn cyrraedd yn frwdfrydig yn y bore ac yn dangos agweddau cadarnhaol da at eu dysgu. Mae'r ymddygiad yn gyson dda ac mae'r plant yn ymwneud yn dda â'u gilydd ac oedolion.

Ar y cyfan, maent yn cyd-weithio'n dda gyda'u gilydd ond nid ydynt bob amser yn cael digon o gyfleoedd i ddewis gweithgareddau ac i gyd-weithio ar dasgau.

Mae pobl o'r gymuned wedi ymweld â'r lleoliad, er enghraifft o'r gwasanaeth tân, sy'n galluogi'r plant i fod yn ymwybodol o bobl yn y gymuned sy'n eu helpu.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Caiff y cynllunio ei wneud mewn modd cydweithrediadol ac mae'n darparu'r plant â gweithgareddau sy'n arloesol ac yn heriol. Mae'n cwrdd â gofynion y plant ac yn ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio'n dda i fodloni athroniaeth y Cyfnod Sylfaen ac i gyflawni'r deilliannau a nodwyd ar gyfer dysgu'r plant.

Drwyddi draw, mae'r cwricwlwm yn adeiladu ar brofiadau blaenorol y plant ac yn cynnwys cyfleoedd da ar gyfer datblygiad medrau ar draws y cwricwlwm. Darperir cyfleoedd da i'r plant ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol mewn llythrenedd a rhifedd, i ddatblygu dealltwiraeth o'r byd ac i datblygu eu medrau corfforol a chreadigol.

Nodwedd nodedig a da o brofiadau dysgu'r plant yw'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer y plant i ddysgu'r iaith Gymraeg. Cymraeg yw iaith naturiol y lleoliad gydag ychydig bach iawn o fewnbwn o'r Saesneg a dim ond pan mae geiriau newydd yn cael eu cyflwyno. Gwelir y Gymraeg fel iaith naturiol y cyfathrebu ac mae'r plant yn derbyn hyn pa beth bynnag bo'u cefndir. Ceir hefyd gyfeiriad priodol i draddodiadau a dathliadau Cymru, fel dathlu Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi.

Drwy'r gweithgareddau ddydd i ddydd, mae'r lleoliad yn galluogi'r plant i ddysgu am ail-gylchu. Darperir blychau sbwriel addas ar gyfer papur, plastig a gwastraff ffrwythau ac arsylwyd y plant yn dewis y blychau sbwriel addas. Mae'r plant yn dechrau deall y syniad o gynaliadwyedd.

### **Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn nodi bod gan staff wybodaeth ymarferol o ddatblygiad plant a dealltwiraeth o ofynion y Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant. Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o'r plant ac mae'r disgwyliadau yma yn cael eu gwireddu yn ymarferol.

Mae'r gweithgareddau yn ddigon heriol ac yn cwrdd â gofynion y plant. Mae'r gweithgareddau yn cael eu defnyddio'n dda gan staff i ddatblygu medrau meddwl y plant. Defnyddir cwestiynu yn dda i ddatblygu eu hiaith a'u medrau cyfathrebu. Mae'r staff yn fodolau rôl da.

Drwyddi draw, mae'r staff yn ymwneud yn weithredol wrth gynllunio gweithgareddau ac fel canlyniad yn gwybod eu rôl. Maent yn ymyrryd yn briodol wrth i'r plant chwarae a mewn gweithgareddau eraill. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r plant yn cael anogaeth a chyfleoedd digonol i ddewis gweithgareddau ac i weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach er mwyn datblygu eu medrau gwneud penderfyniadau a rhyngberonol.

Dengys gweithdrefnau a chofnodion asesu bod y plant yn cael eu hasesu'n rheolaidd a cheir cofnodion cynhwysfawr o gynnydd a chyflawniad plant. Mae'r rhain yn cael eu dyddio ac yn dangos y cynnydd a wneir gan y plant. Mae'r adroddiadau i rieni yn dangos cyflawniad y plant yn y chwe maes dysgu.

Mae rhai enghreifftiau o ddefnyddio canlyniadau'r asesu yn dda fel sail i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant. Gwelir hyn yn dda yn y cynllunio ar gyfer datblygu medrau rhifedd y plant. Fodd bynnag, mewn enghreifftiau eraill, nid yw'r cynllunio'n ddigon manwl i alluogi'r camau nesaf yn y dysgu gael eu nodi a'u cynllunio.

## **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant yn dda. Mae eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda hefyd gyda rhai agweddau da iawn.

Mae'r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad – maent yn awyddus i gymryd rhan gan wneud hyn yn frwdfrydig gyda'r gweithgareddau a osodir ar eu cyfer. Dangosant synnwyr o chwilfrydedd a diddordeb yn y byd o'u cwmpas fel wrth fynd ar ymweliadau i'r fro ac yn y gwaith sy'n dilyn, fel printio a darlunio dail.

Nodwedd nodedig a da iawn o'r lleoliad yw ei lwyddiant mewn datblygu gwerthoedd moesol fel parch, gonestrwydd a thegwch a datblygu dealltwriaeth plant o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir.

Caiff yr holl blant eu gwerthfawrogi ac mae hyn yn amlwg yn y berthynas rhyngpersonol dda iawn o fewn y lleoliad. Mae'r staff yn wylidwrus ac yn rhoi cefnogaeth dda iawn pa beth bynnag mae'r plant yn ei wneud. Hyrwyddir hyn gan gymhareb staff/plant ffafriol. Yn ystod yr arolygiad, roedd enghriffitiau da o blant unigol yn cael cyfrifoldebau fel "helpwr y dydd" a chael cyfrifoldebau penodol yn ystod amser byrbryd. Dyma arfer dda. Mae ymddygiad yn dda a hefyd y berthynas rhwng plant ac oedolion.

Yn aml, cysylltir gwaith celf y plant â'u gwaith thematig, fel eu hastudiaeth o'r Esgimo (Inuit) a chaiff y plant gyfleoedd i ymuno â disgyblion yr ysgol gynradd ar gyfer gweithgareddau diwylliannol.

Cynllunir cysylltiadau â mudiadau yn y gymuned er mwyn meithrin mwy o ddealltwriaeth o bobl sy'n eu helpu. Mae hyn yn cynnwys ffocws penodol ar "weithgareddau ysbyty" gan fod yr ysbyty lleol gerllaw.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel. Mae'n mwynhau'r diogelwch sy'n dod gyda bod yn rhan o dir yr ysgol. Nid oes yr un plentyn yn medru gadael heb gwmni ac nid oes neb yn medru dod mewn i'r adeilad yn ddi-rybudd. Cymer pob gofal ar ddiwedd y bore i sicrhau bod y plant yng ngofal eu rhieni neu ofalwyr pan cânt eu casglu ar ddiwedd y bore.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau sydd wedi'u sefydlu'n dda i ddarparu cefnogaeth i blant sydd angen cymorth arbenigol. Er nad oes yr un plentyn ar hyn o bryd sydd angen cymorth arbenigol, mae'r lleolaid yn gymwys iawn i dderbyn unrhyw blentyn ag anghenion arbennig, yn enwedig unrhyw ffurf o anabledd corfforol. Mae'r staff yn wylidwrus wrth adolygu cynnydd plant ac yn eu hasesiad o unrhyw blentyn sydd ag anghenion ychwanegol. Mae cysylltiadau da yn bodoli gyda gwasanaethau arbenigol.

Mae person penodedig ar gyfer delio â materion diogelu plant ac mae'r staff yn gyfarwydd â materion diogelu a'r hyn i edrych amdano. Mae'r gweithdrefnau yn dilyn



“Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru 2008” a chaiff y staff hyfforddiant rheolaidd. Ymdrinir yn rheolaidd ag asesiadau risg.

### **Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae natur cynhwysol a chyfeillgar y lleoliad yn hyrwyddo ethos rhagorol, lle mae unigolrwydd plant yn cael eu hadnabod. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn sensitif i'w hanghenion ac i ddyheuadau rhieni gan weithredu'n gyfatebol.

Mae gan yr holl blant fynediad cyfartal i gwricwlwm o ansawdd uchel sy'n cael ei gyfoethogi gan berthynas agos â'r ysgol gynradd. Mae hyn yn cynnwys cynllunio cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar y cyd gyda'r ysgol gynradd er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad a gwneud defnydd o arbenigedd broffesiynol yr ysgol. Gwna'r plant ddefnydd hefyd o gyfleusterau'r ysgol gan gynnwys caeau'r ysgol a'r ystafell gyfrifiaduron yn ogystal â mynychu digwyddiadau'r ysgol fel addoli ar y cyd yn y bore pan mae'n briodol i wneud hynny.

Nodwedd rhagorol arall sy'n effeithio'n dda iawn ar ddatblygiad plant yw bod y staff sy'n gweithio yn y lleoliad yn eu cefnogi yn y dosbarth pan symudant i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Hefyd, mae athrawes y Blynyddoedd Cynnar yn cael cysylltiad rheolaidd â'r plant yn y lleoliad. Fel y gwelwyd yn ystod yr arolygiad, roedd yr athrawes mor gyfarwydd â'r plant ag a oedden nhw gyda hi.

Drwyddi draw, mae'r trefniant hyn yn sicrhau cefnogaeth arbennig ar gyfer yr holl blant gan hyrwyddo lles pawb a gwaredu unrhyw ymddygiad gwrth-gymdeithasol neu ormesol. Yn ogystal, mae'n darparu ansawdd uchel o ddarpariaeth barhaus i'r plant yn eu dysgu.

Pe bai plant yn y dyfodol ag unrhyw ffurf o anabledd, boed hi'n gorfforol neu fel arall, byddai'r trefniant hyn yn eu darparu â gofal a chefnogaeth a allai fod yn dda iawn, gan gynnwys gwneud defnydd o arbenigwyr allanol drwy wasanaethau cefnogi ysgolion. O safbwynt rhieni, byddai'r trefniant hyn yn eu darparu â pharhad a chanolbwynt clir o gysylltiad pe bai angen cymorth neu wybodaeth ychwanegol arnynt.

Mae gan staff gymwysterau perthnasol a phriodol a phrofiad da o weithio gyda phlant ifanc. Maent wedi mynychu hyfforddiant perthnasol a diweddar ac yn elwa o fod yn rhan o drefniadau hyfforddi proffesiynol yr ysgol.

Mae'r lleoliad yn elwa o gael adnoddau rhagorol sy'n addas ac yn cyfateb yn dda i ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion penodol y plant. Defnyddir yr ystafelloedd yn effeithiol iawn a defnyddir yr amgylchedd lleol yn dda iawn i gyfoethogi dysgu'r plant.

Drwyddi draw, mae'r amgylchedd dysgu yn rhagorol ac yn effeithiol iawn wrth gefnogi datblygiad y plant.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r staff yn cyd-weithio'n dda ac yn effeithlon. Mae'r arweinyddiaeth gyfredol yn rhoi cyfeiriad clir a synnwyr o bwrpas sydd wedi hyrwyddo gwelliannau. Mae'r staff yn rhannu gwerthoedd, amcanion a nodau ac mae'r ddwy yn cymryd rhan yn y cynllunio strategol. Maent yn hyrwyddo ethos gadarnhaol yn llwyddiannus a chanddynt disgwyliadau uchel o'r plant sy'n cael eu gwireddu yn ymarferol.

Nodwedd dda iawn a nodedig o'r arweinyddiaeth yw'r cysylltiadau agos ac effeithiol gyda'r ysgol ac mae'r lleoliad yn cael ei ystyried yn rhan fawr o'r ddarpariaeth addysgiadol a gynigir i blant ifanc yn yr iaith Gymraeg mewn cymuned sydd braidd yn Seisnigaid.

Mae'r arweinyddiaeth yn amlwg yn canolbwyntio'n dda ar anghenion y plant ac mae datblygiadau diweddar yn enwedig wedi cyflawni hyn yn llwyddiannus. Mae'r plant yn cael eu rheoli'n dda i ddatblygu eu hunan barch yn llwyddiannus ac mae'r cysylltiadau â rhieni a gofawyr wedi'u sefydlu'n dda.

Mae'r cwricwlwm wythnosol/dyddiol yn cael ei arddangos ar gyfer rhieni ei weld sy'n eu hannog i gefnogi dysgu eu plant. Mewn trafodaeth, dywed nifer ohonynt eu bod yn dysgu'r iaith Gymraeg eu hun gan fod eu plant yn y lleoliad.

Rheolir y lleoliad yn dda, gan gymryd sylw da o ddeddfwriaeth ac arweinaid perthnasol. Caiff y grŵp rheoli wybodaeth dda am waith a pherfformiad y lleoliad ac maent yn bodloni eu cyfrifoldebau cyfriethiol.

Mae'r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau cendlaethol a lleol.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae'r lleoliad yn hunanarfarnol ac wedi nodi meysydd i'w gwella yn ddiweddar a'u gweithredu er lles y plant. Mae hyn yn cynnwys gwneud gwell ddefnydd o'r adnoddau drwy ddarparu ardaloedd gweithgareddau deniadol a phwrpasol yn y dosbarth a hefyd datblygu'r ardal tu allan. Defnyddir yr ardal tu allan yn dda nawr, fel wrth ddarparu ardaloedd, er enghraifft, ar gyfer datblygiad corfforol, bwrdd sialc ar gyfer medrau ysgrifennu cychwynnol, ac ardal sain lle mae'r plant yn medru defnyddio offer cegin fel offerynnau taro a gweithgareddau gyda dŵr.

Cysylltir â rhieni yn rheolaidd ac mae ganddynt fynediad i'r lleoliad yn ddyddiol.

Mae'r staff yn elwa o hyfforddiant datblygiad proffesiynol yr ysgol. Hefyd, mae'r cynllunio yn cael ei wneud ar y cyd gydag athrawes y blynyddoedd cynnar gan elwa o'i harbenigedd a chreu rhaglen gyfannol i'r plant.

Yn ogystal, mae'r staff wedi mynychu hyffordiant proffesiynol, fel Hylendid Bwyd, sy'n sicrhau lles y plant.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r berthynas agos, effeithiol a phroffesiynol gyda'r ysgol lle mae'r plant yn trosglwyddo yn nodweddiadol arbennig o dda. Gwna hyn gyfraniad arwyddocaol a gwerthfawr, nid yn unig i ddatblygiad addysgiadol y plant ond hefyd yn nhermau eu lles.

Mae'r rheini, yn yr atebion i'r holiaduron a mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad llwyr â'r lleoliad ac yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfleusterau sydd ar gael i'r plant. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfloedd dyddiol i gwrdd â'r staff. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r gofal a'r sylw a roddir i'r plant a'r trosglwyddo hwylus i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r lleoliad yn elwa hefyd o'r gefnogaeth a ddarperir gan staff yr Awdurdod Lleol sy'n ymweld yn rheolaidd. Mae'r lleoliad yn gwerthfawrogi eu cyngor a'u hawgrymiadau sydd wedi cyfrannu'n dda at ddatblygu'r cyfleusterau. Mae trafodaeth gyda staff yr awdurdod lleol wedi bod yn fuddiol hefyd wrth arfarnu'r ddarpariaeth a gosod targedau ar gyfer eu datblygu.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol. Caiff y cynllunio ei wneud ar y cyd ac fel canlyniad gwneir y mwyaf o gyfraniad pawb. Mae'r cynllunio yn cynnwys athrawes Blynyddoedd Cynnar yr ysgol hefyd.

Caiff yr adnoddau eu defnyddio'n dda iawn i gymell, ysgogi a herio'r plant. Cânt effaith gadarnhaol iawn ar eu haddysg a fe'u defnyddir yn dda yn yr addysgu. Drwyddi draw, mae gan y lleoliad adnoddau da a lle mae anghenion ( fel darparu adnoddau TG) fe'u darperir gan yr ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i leoli'n dda i ddarparu profiadau yn yr awyr agored i'r plant a thrwyddi draw, mae'r adnoddau'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau'r plant ar draws yr holl feysydd dysgu.

Drwyddi draw, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## **Atodiad 1**

### **Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cafodd pedwar holiadur eu dychwelyd.

Roedd canlyniadau'r holiaduron a thrafodaethau gyda nifer o rieni yn ystod yr arolygiad yn nodi eu cefnogaeth gref o'r lleoliad. Roedd yr ymatebion i'r holl ddatganiadau yn yr holiadur yn gadarnhaol a chadarnhawyd hyn mewn trafodaethau.

### **Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r holl blant yn hapus yn y lleoliad. Mae eu brwdfrydedd yn amlwg wrth iddynt gyrraedd a dangosant gryn dipyn o hunan-hyder trwy wybod bod ganddynt gefnogaeth dda a phrofiadau diddorol yn y lleoliad.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

Mr Eifion R Morgan	Arolygydd Cofnodol
--------------------	--------------------

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))